CYNGOR BRO CYLCH Y GARN

Cofnodion Cyfarfod Cyngor Bro Cylch y Garn a gynhaliwyd

nos Fawrth, 30 o Ebrill 2019 yng Nghanolfan Llanfairynghornwy am 7.30 o'r gloch.

1. Croeso ac ymddiheuriadau.

Presennol: Eric Davies **ED**, William F K Hughes **WFKH**, Huw Morris Jones **HMJ**, Thomas H Jones **THJ** (yn y gadair), Huw Richards **HR**, John Griffith **JG**, Arfon Owen **AO**, Rhian Wyn Owen **RWO**.

Ymddiheuriadau: Ken Hughes **KH**

2. Datgan Diddordeb.

JG ynglyn a cheisiadau cynllunio.

3. Cofnodion Mawrth 2019 ac unrhyw faterion yn codi o'r cofnodion.

Nodwyd fod pawb wedi derbyn copiau o'r cofnodion. **HMJ** yn cynnig eu bod yn gywir, **ED** yn eilio.

3.1 Derbyniwyd lythyr o ddiolch gan Yr Urdd am y rhodd ariannol.

3.2 Derbyniwyd lythyr o ddiolch gan Y Rhwyd am y rhodd ariannol.

3.3 Derbyniwyd lythyr gan Un Llais Cymru yn cadarnhau aelodaeth ar gyfer y flwyddyn 2019-20.

3.4 Cadarnhaodd Mr Alun Foulkes y bydd yn ymgymryd a'r gwaith archwilio mewnol ar gyfer y flwyddyn 2018-19. Nodwyd nad oedd y ffi wedi ei gadarnhau, ond ei fod fel arfer oddeutu £75.
- Y clerc i ofyn am gadarnhad gan Mr Foulkes o'i ffi.

4. Gohebiaeth wedi'i dderbyn.

4.1 Derbyniwyd Rhybudd o Fwriad gan CSYM yn hysbysu bydd gwahardd traffic dros dro o gyffordd Lon Aelwyd hyd at gyffordd ger Tyddyn, Llanfairynghornwy. Nodwyd fod arwyddion wedi'u codi ar y safle yn nodi bydd y lon wedi ei chau am wythnos o'r 16/4/19, ond nad oedd yn ymddangos fod hyn wedi digwydd.

4.2 Derbyniwyd lythur yn nodi bydd angen i etholwyr Llanrhuddlad fynychu Canolfan Llanfairynghornwy ar gyfer etholiadau Ewropiaidd ar 23/5/19 am nad oes adeilad addas yn Llanrhuddlad.

4.3 Derbyniwyd adroddiad Pwyllgor Safonnau Cyngor Sir Ynys Mon ar Gofrestr Diddordebau Aelodau y Cynghorau Tref a Chymuned. Nodwyd fod y ddogfen yn 103 o dudalennau, ond roedd rhai rhannau wedi eu printio ar gyfer sylw y cynghorwyr. Dosbarthwyd gopiau i bawb yn bresennol, ac cytunwyd i'w nodi ar agenda mis Mai er mwyn rhoi cyfle i bawb ei ddarllen. *Y clerc i'w gynnwys ar agenda mis Mai.*

4.4 Cadarnhawyd nad oedd llythur cais wedi ei dderbyn gan Eglwys Llanfairynghornwy felly nid oedd modd gwneud rhodd ariannol ar hyn o bryd.

4.5 Nododd **JG** fod ymgynghoriad Cynllun Adfywio Gogledd Ynys Mon i'w gael ar lein os oedd y cynghorwyr yn dymuno cyflwyno sylwadau fel unigolion.

4.6 Nododd **HR** nad oedd mannau pasio wedi eu creu fel oedd yn ofynnol fel rhan o ganiatad cynllunio Gilfach. *Y clerc i gysylltu a CSYM a gofyn am eglurhad.*

5. Ceisiadau cynllunio.

18C135A-Cais llawn ar gyfer addasiadau ac estynniad yn Refail, Llanfairynghornwy.

Dim sylwadau.

6. Unrhyw fater arall.

6.1 Derbyniwyd ebost gan Pwyllgor Canolfan Cymuned Llanfairynghornwy yn mynegi siom nad oedd y glaswellt wedi ei dorri, ac yn dilyn derbyniwyd ebost gan **KH** yn nodi cwynion nad oedd y glaswellt wedi ei hel. Cytunwyd i'w nodi ar agenda i'w drafod yn Ionawr 2020, ac efallai bydd angen cysylltu a'r sawl sy'n gyfrifol o'i dorri i drefnu fod y torriad cyntaf yn gynt yn y tymor. Nodwyd hefyd nad oedd cytundeb mewn lle i gasglu'r glaswellt, ond os byddai'n cael ei dorri'n gynt efallai na fyddai angen. *Y clerc i'w nodi ar agenda Ionawr 2020.*

6.2 Derbyniwyd ebost gan **KH** yn nodi ei fod wedi derbyn cadarnhad bydd hawl tramwy ogwmpas y gofeb yn Llanrhuddlad. Nodwyd pryder y byddai preswylwyr y ty/tai newydd gyda'r un hawl ogwmpas y gofeb, ac ni fyddai hyn yn dderbynniol nac yn barchus. *Y clerc i gysylltu a CSYM a'r cwmni cyfreithiwr am eglurhad o beth yw'r bwriad gyda'r ddau giat yn symud ymlaen.*

6.3 Nodwyd pryder ynglyn a'r "overhangs" yn Bae Porth Swtan, ac ei fod yn beryg iawn i ddefnyddwyr lan y mor basio odanynt. *Y clerc i gysylltu a Swyddog Arfordir CSYM i fynegi pryder.*

6.4 Nodwyd fod pryderon yn parhau ynglyn a'r sefyllfa parcio a chyflwr y lon o flaen Capel Llanrhuddlad, ynghyd a lleoliad dau bolyn ar y lon. *Y clerc i drefnu cwrdd ar y safle gydag **ED**.*

7. Taliadau i'w gwneud.

7.1 Canolfan Llanfairynghornwy	Cyf: Defnyddio'r ganolfan	Rhif siec 100707	£20.00
7.2 Mr Arfon Owen	Cyf: Costau	Rhif siec 100708	£92.80

8. Cyfrifon 2018-19.

Nododd **AO** ei fod wedi darparu cyfrifon 2018-19

Cadarnhawyd incwm o £7255.86 a gwariant o £5154.65

Diolchodd y cadeirydd i **AO** am ei waith caled ar y cyfrifon, ac am fod mor barod i gynnig cymorth i'r clerc newydd.

9. Ethol Cadeirydd ac Is-Gadeirydd ar gyfer 2019-20.

Etholwyd **HMJ** fel Cadeirydd a **HR** fel Is-Gadeirydd.

10. Dyddiad cyfarfod nesaf.

Cynhelir cyfarfod nesaf nos Fawrth, 21 o Fai yn Neuadd Llanrhuddlad am 7.30 o'r gloch.